

## DAFYDD ap BLEDDYN (bu. farw 1346), esgob Llanelwy

**Enw:** Dafydd ap Bleddyn  
**Dyddiad marw:** 1346  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Llanelwy  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** John Edward Lloyd

ar ôl marw Llywelyn ap Llywelyn, 1314. Yn ôl **Iolo Goch** (*Gwaith*, gol. **C. Ashton**, 273), yr oedd o linach Uchtryd; o'r herwydd, fe'i gwneir gan yr achau yn frawd lthel Anwyl ac yn nai lthel Fychan, deuwr o ddylanwad yng ngwlad Fflint yn nechrau'r ganrif (*Powys Fadog*, iii, 106; iv, 154). Yr un ydoedd yr esgob, y mae'n bosibl, â'r ' David ab Bleyney, parson de Kirkyn (Cilcen?) a dalodd wrogaeth yn 1301. Ar 18 Gorffennaf dug ef a chanon arall y newydd am farw'r esgob Llywelyn a rhoddwyd iddynt ganiatâd y brenin i symud ymlaen i ethol olynnydd iddo. Ymddengys oddi wrth Pen. MS. 20 fod y cabidwl eisoes wedi gweithredu cyn cael y caniatâd a dewis David ar 23 Mehefin. Ar 7 Medi hysbyswyd archesgob Caergaint fod y brenin wedi cadarnhau'r ethol; ar 1 Dachwedd rhoddwyd y meddiannau lleyg yn eu hól i'r esgobaeth ac yr oedd popeth yn barod i'r cysegru; gwnaethpwyd hyn yng Nghaergaint, 12 Ionawr 1315, a'r esgob newydd yn gwneuthur y broffes arferol o ufudd-dod i'r archesgob.

Di-ddigwyddiad a fu tymor Dafydd fel esgob. Ar 27 Hydref 1320 derbyniodd gan y Goron hawl i godi tollau yn yr hen ffair a gynhelid yn Llanelwy y dydd cyntaf o Fai (*Cal. Chart. Rolls*). Tua'r adeg hon y dechreuwyd ysgrifennu ' Llyfr Coch Asaph,' cyfrol yn cofnodi gweithrediadau'r esgobion a'r esgobaeth. Aeth y llawysgrif wreiddiol ar goll ond gwyddys beth oedd ei chynnwys am fod tri chopi ohoni ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol. Anaml yr ai'r esgob o'i dalaith; yr oedd, fodd bynnag, yn Halesowen ym mis Mehefin 1322 pan gysegrwyd Roger yn esgob Lichfield. Bu'n cyfreithio ym mis Rhagfyr 1330 gydag arglwydd Powys ynghylch eglwysi Meifod, y Trallwng, a Chegidfa. Yn 1336, gyda chaniatâd y cabidwl, cymerth feddiannau eglwys Nantglyn er mwyn gwella cyflog deg ficer yr eglwys gadeiriol; yn ôl y weithred, a gadarnhawyd gan y brenin yn 1341, ymddengys fod braich ddeheuol y gangell, lle y cynhelid y llysoedd eglwysig yn ddiweddarach, newydd gael ei hadeiladu. Bu cyfreithio yn erbyn yr esgob yn 1340-1 gyda'r amcan o gwtogi hawliau tymhorol yr esgobaeth, ond nid ymosodwyd ar ei gymeriad (gweler *Flint Record Series*, 2, xxix-xxxiii).

Nid oedd ysgrifenydd cynnar yn medru bod yn sicr ynglyn a blwyddyn marw Dafydd - tybiasant na bu esgob newydd hyd 1352 - eithr dengys dogfennau'r babaeth i'r awdurdodau pabyddol yn Avignon glywed iddo farw yn 1346 ac felly i'r pab Clement VI allu rhoddi'r sedd wag i **Siôn Trevor** ar 26 Mehefin (*Cal. Papal Letters*, iii, 235; *Petitions*, i, 48).

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

Wharton, *Historia de Episcopis et Decanis Londinensibus neonon de episcopis et Decanis Assavensibus a primâ sedi utriusque Fundatione ad annum 1540. Accessit appendix duplex instrumentorum qorundam insignium, etc* (Llundain 1695), 333-5

Browne Willis, *A Survey of the Cathedral-Church of St. Asaph* (1720), 50-2, 183-92

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), 61-2, 216

*Calendar of Patent Rolls*

Stubbs, *Registrum Sacrum Anglicanum* (1897)

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Dafydd ap Bleddyn](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13127768](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

